# CRONFA ARDDANGOS FFILMIAU 2025-26 CANLLAWIAU

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 2

I bwy mae'r gronfa hon? ..... 3

Beth yw pwrpas y gronfa hon? ..... 3

Costau Cymwys ..... 3

- Ni allwn ariannu ..... 4

Faint o gyllid sydd ar gael? ..... 5

Sut ydw i'n gwneud cais? ..... 6

- Cais ..... 6

Beth sy'n digwydd nesaf? ..... 6

Sut byddwn ni'n gwneud penderfyniad? ..... 7

Y Camau Nesaf ..... 7

Cwynion, Adborth ac Ymholiadau ..... 7

Adrodd ..... 8

Diogelu Data ..... 8

Manylion Cyswllt ..... 9

Cwestiynau Cyffredin ..... 9

- Rwy'n cynrychioli awdurdod lleol, a allaf i wneud cais? ..... 9
- Beth all gael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol? ..... 9
- Pa gymorth arall mae Ffilm Cymru Wales yn ei gynnig? ..... 9



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cyflwyniad

Ein nod yw hybu sector ffilm a diwylliant ffilm cynaliadwy sy'n gweithio i bawb ledled Cymru.

Mae'r Gronfa Arddangos Ffilmiau galwad agored hon yn gwahodd ceisiadau gan sinemâu annibynnol, gwyliau ffilmiau, sinemâu untro a sinemâu cymunedol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae Ffilm Cymru Wales wedi bod yn helpu prosiectau arddangos ffilmiau yng Nghymru ers 2006. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r cymorth hwn wedi bod ar ffurf grantiau blynyddol a ddyfarnwyd i bortffolio trawiadol o arddangoswyr ffilmiau sy'n gweithio i gynnal a chynyddu eu cynulleidfaoedd trwy arferion arloesol, cynhwysol a chynaliadwy.

Rydym yn deall bod pryderon cyffredin ar draws y sector gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn costau byw a newidiadau i ymddygiad cynulleidfaoedd. Gan gadw at ein hymrwymiad i hybu arloesedd, cynhwysiant ac arferion cynaliadwy, bydd y gronfa hon yn cynorthwyo arddangoswyr i gynnal a datblygu eu gwaith mewn sector sy'n esblygu, gan weithio mewn ffyrdd newydd a chysylltu â chynulleidfaoedd a'u cymunedau ehangach trwy ffilmiau.

Yn 2025-26, bydd Ffilm Cymru Wales yn gwahodd ceisiadau ar ddau achlysur. Bydd dyddiadau cau cyflwyno ceisiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ffilm Cymru Wales.

Mae'r alwad yn agored i geisiadau sy'n ceisio hyd at £15,000 a hyd at 75% o gyfanswm y costau i gynorthwyo gweithgarwch a gaiff ei gynnal dros 12 mis o ddechrau'r dyfarniad.

Mae'r arian hwn sy'n cael ei gynnig yn cynnwys arian loteri a ddirprwywyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

## I bwy mae'r gronfa hon?

Mae'r Gronfa Arddangos Ffilmiau yn cynorthwyo sefydliadau diwylliannol a grwpiau cymunedol sy'n gweithio i gynyddu mynediad i ffilmiau annibynnol yng Nghymru. Mae’r gronfa hon yn agored i geisiadau gan y rheini sy’n gweithredu sinemâu annibynnol, gwyliau ffilmiau, dangosiadau untro, a sinemâu cymunedol sydd wedi’u lleoli yng Nghymru.

Ni all Ffilm Cymru Wales gynorthwyo sinemâu masnachol prif ffrwd a/neu fentrau cwbl fasnachol sydd â’r prif ddiben o gynhyrchu elw.

## Beth yw pwrpas y gronfa hon?

Mae’r gronfa hon yn bodoli i gynorthwyo arddangoswyr ffilmiau sydd wedi’u lleoli yng Nghymru, gan gynnwys Sinemâu Annibynnol, Gwyliau Ffilmiau, Sinemâu Cymunedol a Sinemâu Untro. Rydyn ni’n chwilio am gynigion arloesol sy’n dod â chynulleidfaoedd Cymru at ei gilydd i fwynhau ffilmiau beiddgar sy’n ysbrydoli ac yn cyffroi. Rydyn ni’n awyddus iawn i gefnogi syniadau sy’n dangos ymrwymiad i’r Gymraeg, cynaliadwyedd amgylcheddol, a chwalu rhwystrau economaidd, ac sy’n ystyried cynulleidfaoedd anabl, cynulleidfaoedd ifanc, cynulleidfaoedd dosbarth gweithiol, a chynulleidfaoedd Du a’r Mwyafrif Byd-eang.

## Costau Cymwys

Gallwn ariannu:

- Marchnata a chyhoeddusrwydd
- Ymchwil marchnata, casglu dealltwriaeth am y gynulleidfa
- Dangosiadau a digwyddiadau ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus, wyneb yn wyneb ac ar-lein
- Trwyddedau ffilmiau a chludiant

- Costau swyddfa, staffio a gorbenion adeiladau (Dylai'r rhain fod yn gymesur â'r gweithgarwch ffilmiau annibynnol rydych yn ei gynnig)
- Llogi lleoliad, sinema neu offer ar gyfer dangosiadau a digwyddiadau naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein
- Tanysgrifiad meddalwedd a gwasanaethau ar-lein, yn gysylltiedig â chasglu dealltwriaeth am gynulleidfa, dangosiadau ar-lein a digwyddiadau
- Treuliau a chludiant gwirfoddolwyr
- Gweithgarwch monitro a gwerthuso, gan gynnwys ymchwil i'r farchnad
- Hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr
- Costau sy'n gysylltiedig â chynyddu mynediad i gynulleidfaoedd (e.e. cyfleusterau creche, lluniaeth, cludiant)
- Gweithgareddau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at leihau effaith amgylcheddol eich prosiect

## Ni allwn ariannu

- Dangosiadau a digwyddiadau wyneb yn wyneb sy'n cael eu cynnal y tu allan i Gymru
- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru
- Sefydliadau nad ydynt yn gallu dangos angen ariannol
- Gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd, neu nwyddau a gwasanaethau y talwyd amdanynt eisoes ar adeg cyflwyno'r cais
- Gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â ffilm neu ddelwedd symudol
- Cymorth ar gyfer gwariant cyfalaf sylweddol, addasiadau neu welliannau i leoliadau

- Derbyniadau diodydd ac adloniant cyffredinol, wyneb yn wyneb neu ar-lein
- Gweithgarwch masnachol
- Rhwydweithio, hyfforddiant a chyfleoedd i wneuthurwyr ffilmiau, wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae Ffilm Cymru Wales yn cynorthwyo'r math hwn o weithgarwch drwy Rwydwaith Talent Cymru y BFI.

## Faint o gyllid sydd ar gael?

Yn ystod 2025-26, bydd Ffilm Cymru Wales yn cynorthwyo arddangoswyr drwy ddau gylch ariannu. Dyma'r dyddiadau cau:

**Cylch Un:** 4 Gorffennaf 2025
**Cylch Dau:** 1 Tachwedd 2025

Mae pob cais wedi'i gyfyngu i uchafswm o gais o £15,000 y flwyddyn fel grant na ellir ei adennill, a chaiff y cyllid ei gapio ar 75% o gyfanswm y gyllideb. Dylai gweddill y gyllideb ddod o gynnwys ffynonellau cyllid ychwanegol, incwm prosiect, a gall hefyd gynnwys cymorth mewn nwyddau.

Pe byddwch yn llwyddiannus yng nghylch un, ni chewch ailymgeisio yng nghylch dau. Fodd bynnag, pe byddwch yn aflwyddiannus yn eich cais yng nghylch un gallwch ailymgeisio pan fydd cylch dau yn agor.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

### Cais

Bydd y cais yn cynnwys:

- Ffurflen Gais wedi'i chwblhau (mae'r ffurflen gais i'w gweld ar ein gwefan)
- Cyfrifon rheoli a Chyfrifon Blynyddol mwyaf diweddar (lleoliadau sinema yn unig)
- Cyllideb y Prosiect (incwm a gwariant arfaethedig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch cynnig)
- Polisïau gan gynnwys Polisïau Amgylcheddol, Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Cyn gwneud cais, efallai yr hoffech drafod eich cynnig gydag aelod o'r tîm. Os hoffech wneud hynny, defnyddiwch y ddolen hon.

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â thîm Ffilm Cymru Wales drwy'r manylion cyswllt isod.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Rhaid cyflwyno pob cais i audience@ffilmcymruwales.com – ni allwn dderbyn unrhyw geisiadau a gaiff eu hanfon i gyfeiriadau e-bost eraill neu drwy'r post.

Bydd e-bost o gadarnhad yn cael ei anfon, a fydd yn cynnwys cyfeirnod a dolen i'n ffurflen ddienw ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd angen i'r prif ymgeisydd lenwi'r ffurflen hon i gwblhau eich cais.

## Sut byddwn ni'n gwneud penderfyniad?

Bydd pob cais am gyllid yn cael ei ystyried gan banel sy’n cynnwys bwrdd a staff Ffilm Cymru Wales. Rydym yn cynghori y gall y broses hon gymryd hyd at 6 wythnos o'r dyddiad cau.

## Y Camau Nesaf

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu trwy e-bost. Yn dilyn hyn, bydd llythyr cynnig yn cael ei anfon yn cadarnhau'r symiau ac unrhyw wybodaeth neu amodau sy'n weddill sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad. Byddwn yn gofyn i’r ymgeiswyr dderbyn y cynnig hwn drwy roi llofnod ac unwaith y bydd yr amodau wedi’u bodloni, bydd Ffilm Cymru Wales yn cyhoeddi cytundeb ariannu ffurf hir.

Mae'r cytundeb ariannu ffurf hir yn adlewyrchu nodau ac amcanion y cais yn ogystal â rhoi manylion gofynion ac amserlenni’r prosiect, gan gynnwys casglu data, prosesau gwerthuso a thelerau ad-dalu os bydd achos o dor-cytundeb heb ei ddatrys.

Yn anffodus, ni all Ffilm Cymru Wales ariannu pob cais a gyflwynir. Fodd bynnag, ein nod yw cynnig arweiniad ac adborth cryno ar bob cais. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu a allant ailymgeisio â chais tebyg sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

## Cwynion, Adborth ac Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, yn y lle cyntaf trowch at ein Cwestiynau Cyffredin, neu anfonwch e-bost i audience@ffilmcymruwales.com. Os hoffech roi adborth neu wneud cwyn, mae ein gweithdrefn i’w gweld fan yma.

## Adrodd

Mae'n ofynnol i bob prosiect gyflwyno adroddiad terfynol o fewn dau fis i ddiwedd y prosiect. Yn dibynnu ar hyd eich prosiect, bydd hefyd yn ofynnol i chi gyflwyno adroddiadau interim y swyddfa docynnau os yw’n berthnasol. Rydym yn gwerthfawrogi adroddiadau tryloyw sy'n rhannu eich profiad ar lawr gwlad.

Byddwch yn derbyn pecyn cymorth a fydd yn cynnwys canllaw a thempledi i'ch helpu i fodloni’r gofynion adrodd. Bydd eich adroddiad yn cynnwys:

- Adroddiad Gwerthuso’r Arddangoswr (yn trafod cyflawniadau, heriau a'r hyn a ddysgwyd)
- Adroddiad y Swyddfa Docynnau (yn manylu ar unrhyw weithgarwch sgrinio a phresenoldeb os yw’n berthnasol)
- Cyllideb Incwm a Gwariant Gwirioneddol trwy gydol y cyfnod ariannu
- Arolwg Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant staff mewnol

Ein nod yw ymweld â chymaint o ymgeiswyr sy’n cael eu hariannu ag sy'n rhesymol bosibl yn ystod y cyfnod a byddwn mewn cysylltiad yn y cyfnod cyn y prosiect ac yn ystod y prosiect i gynnig cymorth ac i drefnu ymweliad (os yn bosibl).

## Diogelu Data

Bydd yr holl ddata a gaiff ei gasglu fel rhan o’r broses ymgeisio a thrwy gydol prosiectau llwyddiannus yn cael ei gasglu yn unol â Pholisi Diogelu Data a Phreifatrwydd Ffilm Cymru Wales. Mae rhagor o wybodaeth a’r polisi preifatrwydd llawn i’w gweld fan yma.

## Manylion Cyswllt

Caiff y Gronfa Arddangos Ffilmiau ei gweinyddu gan Georgina Morgan

georgina@ffilmcymruwales.com

## Cwestiynau Cyffredin

### Rwy'n cynrychioli awdurdod lleol, a allaf i wneud cais?

Mae croeso i awdurdodau lleol wneud cais lle gallant ddangos angen a chysylltiad â'r sector celfyddydol a chreadigol ehangach. Rydym yn annog awdurdodau lleol i edrych ar ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau celfyddydol a ffilm presennol.

### Beth all gael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol?

Gall arian cyfatebol amrywio o gyllid o ffynonellau ychwanegol, i incwm a enillir, i gymorth mewn nwyddau ac amser gwirfoddol. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymorth gwirfoddolwyr (lle bo'n briodol), llogi lleoliad ac amser staff. Dylid dangos manylion sut rydych wedi cyfrifo cymorth mewn nwyddau ac amser gwirfoddol a'ch rhagdybiaethau ynghylch incwm a enillir (e.e. rhagamcan o nifer y tocynnau a werthir am bris o £x).

### Pa gymorth arall mae Ffilm Cymru Wales yn ei gynnig?

Ffilm Cymru Wales yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gymorth i wneuthurwyr ffilmiau a aned neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, sy'n awyddus i ddatblygu a chynhyrchu ffilmiau nodwedd. Rydym hefyd yn datblygu rhaglenni hyfforddi i ddatblygu sgiliau newydd a llwybrau gyrfa i mewn i'r diwydiant ffilm. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Ffilm Cymru Wales.

Mae Ffilm Cymru Wales hefyd yn gartref i Rwydwaith BFI Cymru, sydd â nifer o gynlluniau sy’n helpu i gefnogi gyrfaoedd datblygol gwneuthurwyr ffilmiau. Os mai nod eich cynnig yw cynorthwyo digwyddiadau rhwydweithio neu ddigwyddiadau i wneuthurwyr ffilmiau, rydym yn argymell cysylltu â'r tîm trwy network@ffilmcymruwales.com.